



Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gynnwys manylion ynghylch sut bydd gwasanaethau'n cael eu caffael neu'r trefniadau i'w darparu. Mae disgwyl i chi ystyried o ddifrif fodolau cyflawni amgen posibl, yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Gall cydgynlluniau ardal hefyd ddefnyddio unrhyw strategaethau comisiynu neu ddatganiadau sefyllfa yn y farchnad sydd wedi'u datblygu a dylent fanylu hefyd ar y mathau o wasanaethau i'w trefnu neu gaffael, e.e. gan: ddarparwyr sector preifat, darparwyr trydydd sector neu drwy fodolau cyflenwi amgen.

Hwyrach y byddwch eisiau cyfeirio hefyd at wasanaethau nad ydynt yn gallu diwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd yn eu hasesiad o'r boblogaeth mwyach, ac y gellid eu datgomisiynu felly.

Mae'r adran hon o'ch cynllun yn rhoi'ch cyfle cyntaf i ddatgan yn gyhoeddus sut rydych yn bwriadu trefnu a darparu unrhyw wasanaethau newydd neu wahanol, yn cynnwys datgomisiynu rhai gwasanaethau o bosibl. Efallai na fydd pethau'n ddigon clir ar hyn o bryd i chi ymrwymo i fodel penodol. Os felly, dylech egluro mai dyna'r achos. Os ydych wedi penderfynu eisoes, byddai'n ddefnyddiol i chi roi esboniad byr iawn o'ch rhesymau am y penderfyniad, er enghraifft, 'Credwn mai'r trydydd sector sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaeth hwn am fod ganddo'r profiad o ddarparu gwasanaethau tebyg mewn mannau eraill.'

Nid oes gofyn i chi egluro'r union fanylion caffael, e.e. y byddwch yn gosod hysbysiad yn y cyfnodolyn Ewropeaidd. Dylid cymryd mai ystyr caffael yng nghyd-destun eich cynllun yw egluro'r model cyflawni, e.e. drwy fenter gymdeithasol, a chrynhof'r dull rydych yn bwriadu ei ddefnyddio i gyrraedd y sefyllfa hon. Nid yw agweddau proffesiynol a thechnegol caffael yn berthnasol yn ystod y cam hwn ond fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor a chymorth gan eich arbenigwyr caffael yn gynnar yn y broses.

Modelau Cyflawni Amgen

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau yn adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, bydd angen i'r cynlluniau hyn fynd ati i ystyried yr opsiynau ar gyfer mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Bydd angen i chi ddisgrifio sut rydych yn cyflawni'r ddyletswydd hon yn adran 2.6 y templed a nodi'r model cyflawni yn y tabl yn adran 2.9. Dylech ystyried defnyddio'ch Fforymau Gwerth Cymdeithasol i ddatblygu syniadau ac opsiynau mewn perthynas ag adran 16, sydd hefyd yn darparu cysylltiad llywodraethu uniongyrchol yn ôl i'ch Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi cynnwys dolenni defnyddiol isod i'ch helpu i bwysu a mesur opsiynau ar gyfer modelau cyflawni amgen.

Canllaw Cymorth Pecyn Cymorth Asesiad o'r Boblogaeth: Mentrau Cymdeithasol

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cynllunio-a-hyrwyddo>

Cydweithredu i Ofalu: Cymorth a chynghor ynghylch sefydlu mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd

<http://cymru.coop/gofal/>

Canllaw Technegol

Mae'r Ddeddf yn annog agweddau newydd ac arloesol at fodolau cyflawni ac fe'ch cynghorir i sicrhau eich bod chi wedi ystyried yr holl bosibiliadau. Ewch i <http://llyw.cymru/docs/phhs/publications/151125pt2socialcy.pdf> i weld briff technegol Llywodraeth Cymru.

Yn y pen draw, fodd bynnag, mater i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw penderfynu ar y model mwyaf priodol.

Cwestiynu myfyriol

- ◆ A ydych wedi penderfynu ar y model cyflawni sydd orau gennych?
- ◆ A ydych wedi egluro'ch bwriadau'n ddigonol yn eich cynllun?
- ◆ A ydych yn glir y dylai manylion caffael yn y cyd-destun hwn ganolbwyntio ar fwriadau cyffredinol yn hytrach nag agweddau technegol?
- ◆ A allwch arddangos eich bod wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf i ystyried modelau cyflawni newydd a gwahanol?
- ◆ A ydych wedi cynnwys gwasanaethau rydych yn bwriadu eu datgomisiynu neu eu hailstrwythuro?



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government